

*Canfyddiadau Rôl Newydd yr Hyrwyddwyr
Ymchwil wrth Ddatblygu Partneriaeth AGA
Newydd: Heriau a Chyfleoedd i Ysgolion a
Phrifysgolion*

DR CERI PUGH, EMMA THAYER, THOMAS BREEZE,
YR ATHRO GARY BEAUCHAMP, DR JUDITH KNEEN,
SHARNE WATKINS A BETHAN ROWLANDS
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

CRYNODEB

Ar ôl proses o dendro cystadleuol ar gyfer darparu addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru, mae cyfle i ail-edrych ar y berthynas rhwng ysgolion a phrifysgolion. Gyda phwysigrwydd cynyddol ymchwil ar gyfer athrawon ac athrawon dan hyfforddiant, datblygodd Partneriaeth Caerdydd fodel lle byddai 'Hyrwyddwr Ymchwil' yn yr ysgol yn rhan annatod o'r gefnogaeth ar gyfer meithrin gallu a datblygu rhagoriaeth. Er i'r model hwn gael ei ddefnyddio ar ffurfiau gwahanol eisoes ym Mhrifysgolion Rhydychen a Manceinion, roedd y rôl yn newydd i ysgolion ym Mhartneriaeth Caerdydd. Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig un-i-un gyda sampl cynrychiadol o hyrwyddwyr ymchwil mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a staff prifysgol i adfyfrio ar yr heriau a'r cyfleoedd yn ystod dyddiau cynnar datblygu'r rôl unigryw hon mewn cyd-destun addysgol esblygol yng Nghymru. Mae'r astudiaeth yn defnyddio data o'r cyfweiliadau hyn i sefydlu syniadau allweddol ynglŷn â datblygiad rôl yr hyrwyddwr ymchwil, y newid yn y berthynas waith rhwng ysgolion a phrifysgolion a'r hyn sydd ei angen i bontio'r bwlch rhwng ymchwil ac ymarfer. Trawsgrifiwyd y cyfweiliadau ac, yn dilyn dadansoddi thematig penagored, nodir y cyfleoedd a'r heriau. Mae'r themâu hyn yn cynnwys: pontio'r bwlch rhwng ymchwil addysgol ac ymarferwyr yn yr ystafell

<https://doi.org/10.16922/wje.22.1.9>

ddosbarth; y mathau o wybodaeth mae athrawon yn pwysu arnynt; newidiadau mewn rôl ac hunaniaeth. Cynigir awgrymiadau am ymchwil pellach i fonitro datblygiad y rôl yn barhaus.

Geiriau allweddol: hyrwyddwr ymchwil, partneriaeth, Addysg Gychwynnol i Athrawon

Cyflwyniad

Mae'r adolygiad o addysg gychwynnol i athrawon (AGA) yng Nghymru wedi arwain at ail-leoli'r modd y mae prifysgolion ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth. Roedd y meini prawf ar gyfer achredu'r rhaglenni newid a gychwynnodd ym mis Medi 2019 yn gofyn am newidiadau sylfaenol, yn cynnwys 'Cyfleoedd strwythuredig i gysylltu dysg ysgolion a phrifysgolion' a 'Rôl ganolog gwaith ymchwil' (Llywodraeth Cymru, 2018: 2).

Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar sut mae Partneriaeth Caerdydd ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon wedi bod yn mynd i'r afael â'r disgwyliadau hyn. Mae Partneriaeth Caerdydd yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac ysgolion cyswllt, mewn cydweithrediad â phrifysgolion Caerdydd a Rhydychen, yn ogystal â chonsortia lleol (Consortiwm Canolbarth y De, Gwasanaeth Cyflawni Addysg) a Chyngor Dinas Caerdydd. Mae'n darparu rhaglenni AGA ar gyfer TAR (Uwchradd a Chynradd) a BA (Anrhydedd) (Cynradd).

Fel rhan o'r bartneriaeth â Phrifysgol Rhydychen, pwysodd Partneriaeth Caerdydd ar yr egwyddorion ymarfer clinigol sy'n seiliedig ar ymchwil sydd ynghlwm wrth gynllun Interniaeth Rhydychen (Burn a Mutton, 2013), yn cynnwys yr ymrwymiad i drafod yr holl gynnwys, strwythur a strategaethau addysgeg gydag ysgolion. Cafodd y canlyniad, y model AGA o *ymarfer clinigol sy'n seiliedig ar ymchwil*, ei fabwysiadu yn y rhaglenni newydd a ddechreuodd ym mis Medi 2019. Mae ymarfer clinigol, term sy'n deillio o'r proffesiwn meddygol, yn rhoi pwyslais ar yr athro dan hyfforddiant i gymryd rhan weithredol wrth ymgysylltu ag ymholi ynghylch anghenion dysgwyr, dewisiadau addysgegol a gwerthuso deilliannau (Burn a Mutton, 2013: 3). Yn ogystal â datblygu sgiliau ystafell ddosbarth, galluogir yr athro dibrofiad 'i ddehongli a gwneud synnwyr o anghenion penodol myfyrwyr arbennig, i lunio a rhoi gweithredoedd addysgeg

penodol ar waith ac i werthuso'r deilliannau' (Burn a Mutton, 2013: 3). Mae ymarfer clinigol yn seiliedig ar ymchwil yn ceisio hyrwyddo 'deialog' (ibid.) bwriadol rhwng ein dealltwriaeth o addysgu a dysgu o ffynonellau ymchwil ac o ffynonellau profiad.

Un o agweddau arloesol model ymarfer clinigol Partneriaeth Caerdydd yw cyflwyno rôl newydd yn yr ysgolion, yn ogystal â'r mentoriaid a'r uwch fentoriaid sydd yn draddodiadol wedi cefnogi athrawon dan hyfforddiant mewn ysgolion. Mae Hynwyddwyr Ymchwil wedi eu penodi ymhob un o ysgolion/gynghreiriau partner arweiniol y Partneriaeth. Cylch gwaith pennaf Hynwyddwr Ymchwil fydd hybu a chefnogi ymgysylltiad ymchwil athrawon dan hyfforddiant yn yr ysgolion/cynghreiriau partner arweiniol, yn arbennig o safbwynt aseiniadau ymchwil wedi'u lleoli yn yr ysgol. Byddant yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol a ffynhonnell o gymorth ymarferol. Bydd yr Hynwyddwyr Ymchwil yn pennu ffocws aseiniad ymchwil y myfyrwyr, ar sail anghenion yr ysgol, ac yna'n lledaenu'r ymchwil o fewn yr ysgol. Yn ogystal â'r rôl benodol hon, fodd bynnag, un o uchelgeisiau ehangach cyflwyno Hynwyddwyr Ymchwil yw annog mwy o ddeialog ymchwil, yn yr ysgol ei hun a rhwng yr ysgol a phartneriaid eraill, fel y prifysgolion a chonsortia addysg rhanbarthol. Mae rôl Hynwyddwr Ymchwil hefyd yn mynd i'r afael â'r bwlch cydnabyddedig rhwng ymchwil ac ymarfer yn y proffesiwn addysgu (McIntyre, 2005).

Mae cyflwyno Hynwyddwyr Ymchwil ym Mhartneriaeth Caerdydd yn arwyddocaol mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, mae trosglwyddo dewis ffocws yr aseiniad ymchwil i ysgolion yn arwydd o symud i ffwrdd o gwmpas dylanwad prifysgol. Bydd staff a systemau'r brifysgol yn dal i gymeradwyo ac asesu'r aseiniadau, ond bydd lledaenu'r aseiniadau o fewn yr ysgol yn golygu y dylai'r ymchwil fod yn fwy perthnasol i'r ysgolion. Bydd cymorth hwyrnos a chyfarfodydd datblygu rheolaidd ar gyfer Hynwyddwyr Ymchwil a chydweithwyr ym Mhartneriaeth Caerdydd yn annog mwy o ddeialog a dealltwriaeth rhwng gwahanol bartneriaid.

Mae'n bwysig nodi bod yr Hynwyddwyr Ymchwil yn cael eu penodi gan yr ysgolion eu hunain, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y ddogfennaeth achredu, cyfarfodydd datblygu a chrynodeb o'r rôl a ddatblygwyd ar y cyd mewn is-grŵp o athrawon a staff prifysgol. Gellir crynhoi dechreubwynt y rôl fel a ganlyn:

- gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng yr ysgolion/cynghreiriau partner arweiniol a Phartneriaeth Caerdydd ar gyfer AGA ar gyfer gwybodaeth a gweithredoedd yn seiliedig ar ymchwil;

- bod yn fodel rôl cadarnhaol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant a chydweithwyr i ennyn brwdfrydedd ynghylch manteision ymgysylltu ag ymchwil;
- cyfarfod gyda Hyrwyddwyr Ymchwil eraill mewn sesiwn hwyrnos unwaith y tymor i rannu canfyddiadau am ymchwil mewn ysgolion, ymgysylltu ag arolygon yn ymwneud ag ymchwil, a derbyn diweddariadau gan y prifysgolion ym Mhartneriaeth Caerdydd ar gyfer AGA;
- o safbwynt rhaglenni TAR, pennu briffiau ar gyfer aseiniadau ymchwil ysgol-gyfan, ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yn yr ysgolion/cynghreiriau partner arweiniol (dau y flwyddyn);
- o safbwynt rhaglenni TAR, crynhoi a dosbarthu crynodebau gweithredol a llofnodi cymeradwyaeth moeseg ymchwil yn ymwneud â dysgwyr;
- cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant i drafod ymchwil (TAR: tair gwaith ar bob lleoliad; BA (Anrhydedd) Cynradd: unwaith);
- rhoi diweddariadau i'r Bartneriaeth ynghylch ffocws/ffocysau ymchwil yr ysgol bob blwyddyn;
- derbyn gwahoddiadau i gyfranogi mewn prosiectau ymchwil ar raddfa ehangach gyda phrifysgol(ion) ac ysgolion/cynghreiriau partner arweiniol eraill ac ymgynghori ag uwch reolwyr yn yr ysgol i benderfynu a ddylid cyfranogi.

Amcan yr astudiaeth hon yw casglu dealltwriaeth a barn yr Hyrwyddwyr Ymchwil a benodwyd ynglŷn â'r rôl ddatblygol cyn cyflwyno'r rhaglen yn llawn, yn ogystal ag ymateb rhai o'r tiwtoriaid o Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'n defnyddio data o gyfweiliadau i sefydlu syniadau allweddol am rôl ganfyddedig yr Hyrwyddwr Ymchwil, y newid posibl mewn perthnasoedd gwaith rhwng ysgolion a phrifysgolion a'r hyn sydd ei angen i bontio'r bwlch rhwng ymchwil ac ymarfer.

Adolygiad Llenyddiaeth

Mathau o Wybodaeth Addysgol

Wrth ddisgrifio'r wybodaeth a ddefnyddir gan athrawon wrth eu gwaith bob dydd, mae llawer o awduron yn pwysleisio pwysigrwydd pwyso ar 'wybodaeth grefft' a gasglwyd ar sail profiad (Gore a Gitlin, 2004; Hammersley, 2005; Hargreaves, 1999; McIntyre, 2005). Yn Japan, er enghraifft, mae trosglwyddiad a datblygiad y 'wybodaeth grefft' hon yn

cael ei ffurfioli yn fodel ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus athrawon (Shimahara, 1998). Yn hanesyddol yn y DU ac mewn llawer o wledydd Gorllewinol eraill, mae datblygiad y 'wybodaeth grefft' hon yn digwydd trwy 'broses ychydig ar hap o gynnig a methu' (Huberman, 1992 dyfynnir yn Hargreaves, 1999: 131), ble mae athrawon yn rhoi'r gwerth mwyaf ar gymhwysedd ymarferol y wybodaeth (Vanderlinde a van Braak, 2010: 306; Gore a Gitlin, 2004: 39) a'i gallu i hwyluso gwneud penderfyniadau cyffym yn amgylchedd yr ystafell ddosbarth (McIntyre, 2005: 360; Hammersley, 2005: 324).

Wrth fynegi sut mae athrawon yn crynhoi eu 'sgemata dysgedig' (Hagger a McIntyre, 2000: 496) o wybodaeth ddealedig, ac wrth ystyried sut gallai gwybodaeth a grëwyd gan ymchwil addysgol (McIntyre, 2005) neu sut na allai (Hammersley, 2005), ddylanwadu ar ymarfer dyddiol athrawon mewn modd mwy systematig a llwyddiannus, mae rhai awduron wedi ceisio dosbarthu a diffinio'r gwahanol fathau o wybodaeth sy'n cael ei chreu a'i defnyddio gan ymarferwyr ystafell ddosbarth ac ymchwilwyr addysgol.

Mae nifer o awduron (Cain, 2015: 494; Burn a Mutton, 2013: 2; McIntyre, 2005: 359) yn cyferbynnu gwybodaeth 'osodiadol' – y wybodaeth *fod* – a gynhyrchir gan ymchwilwyr addysgol gyda gwybodaeth 'addysgegol' – a drysorir gan ymarferwyr (Gore a Gitlin, 2004; Winch, Oancea ac Orchard, 2015). Mae gwaith cynharach (Biesta, 2007; 2010; Dewey, 1929; Hammersley, 2005 a McIntyre, 2005, dyfynnir yn Cain, 2015: 494) yn darlunio'n eglur dros ben nodweddion croes y ddwy fath yma o wybodaeth, gan gyflwyno'r rhaniad fel 'y broblem wybodaeth' sy'n peri i rywun gwestiynu 'a yw ymchwil yn gallu cyfrannu at ymarfer addysgol o gwbl' (Cain, 2015: 491). Mae Hammersley (2005: 319–320) yn crynhoi'r rhaniad ar ffurf 'bai' a gyfeirir gan rai at gynhyrchwyr ymchwil, a chan rai ar y sawl sy'n ei ddefnyddio (ac mae'n rhoi ymarferwyr a llunwyr polisi yn y categori hwn). Mae McIntyre (2005: 361) yn cynnig y gallai'r ddau begwn yma fod yn bwyntiau ar gontinwmm yn hytrach na ffenomena ar wahân, ac yn diffinio 'continwmm o fathau o wybodaeth' fel a ganlyn:

1. Gwybodaeth grefft ar gyfer addysgu yn yr ystafell ddosbarth;
2. Mynegiad o wybodaeth grefft;
3. Meddwl ystyriol neu adfyfyriol ar gyfer addysgu yn yr ystafell ddosbarth;
4. Ymchwil i weithredu yn yr ystafell ddosbarth;
5. Gwybodaeth a gynhyrchir gan ysgolion a rhwydweithiau ymchwil;
6. Awgrymiadau ymarferol ar gyfer addysgu yn seiliedig ar ymchwil;

7. Adolygiadau o ymchwil ar themâu penodol;
8. Canfyddiadau a chasgliadau ymchwil.

Delio gyda'r 'bwlch' gwybodaeth

Mae sylwebwyr pesimistaidd ar y 'bwlch' rhwng ymchwilwyr ac ymarferwyr yn nodi'r ffaith y byddai ymchwilwyr, trwy fynd ati'n fwriadol i gynhyrchu ymchwil sydd â chysylltiad agosach ag ymarfer, yn cronni llawer llai o 'gyfalaf academaidd' (Ellis *et al.*, 2014: 35), ac yn colli allan ar y 'statws sefydliadol a'r gwobrau economaidd' (Gore a Gitlin, 2004: 47) sy'n llifo o 'gyfalaf' o'r fath. Yn y cyfamser, nid oes gan athrawon sy'n delio 'gydag ystad o faterion ar yr un pryd, ac yn aml yn eithafsydyn' (Hammersley, 2009: 324, italg yn y gwreiddiol) fawr o ddewis heblaw dibynnu ar 'wybodaeth ddamcaniaethol ddistylledig a gwerthoedd yn seiliedig ar ddatganiadau poblogaidd ... y mae sgysiau ystafelloedd staff yn eu troi'n homiliau, gwirebau ac ymagweddau adweithiol' (Winch, Oancea ac Orchard, 2015: 209). Yn y tir canol rhwng y ddwy garfan hyn mae tiwtoriaid AGA prifysgol, sy'n wynebu 'proletareiddiad' academaidd (Ellis *et al.*, 2014), 'arwahanrwydd cynyddol, ac ymraniad posibl, rhwng addysg athrawon a'i sylfaen ymchwil' (Tanner a Davies, 2009: 374) ac yn llywio anawsterau'r perthnasoedd rhwng athrawon dan hyfforddiant, ysgolion a phrifysgol (Elton-Chalcraft *et al.*, 2018).

Wrth alw am ragor o ddeialog rhwng ymchwilwyr ac ymarferwr, mae nifer o awduron wedi nodi'r potensial am rôl 'gyfryngol'. Mae Dimmock (2016: 46) yn awgrymu y dylai ysgolion gael adran ymchwil, gyda chydlynedd ar y staff a 'phersonél prifysgol yn cyfranogi mewn partneriaethau cydweithredol' – trefniant sy'n debyg iawn i rôl 'Hyrwyddwr Ymchwil' Partneriaeth Caerdydd. Yn yr un modd, canfu Vanderlinde a van Braak (2010: 307) fod '... athrawon yn pwysleisio pwysigrwydd cael cyfryngwr ar lefel ysgol gyda mandad gan yr ysgol i ddilyn datblygiadau ymchwil addysg, ac i drosglwyddo canlyniadau ymchwil i'w cydweithwyr.'

Yn astudiaeth Cain (2015), cafwyd deialog rhyngddo ef, fel ymchwil-ydd, ac athrawon wrth eu gwaith ynghylch papurau ymchwil. Arweiniodd hyn at athrawon yn trawsnewid gwybodaeth ddamcaniaethol yn wybodaeth ymarferol, trwy amrywiaeth o ymagweddau dychmygus. Mae ymagwedd arall a gynigiwyd gan nifer o sylwebwyr yn ymwneud ag aiddioffinio ysgolion fel safleoedd cynhyrchu gwybodaeth, yn hytrach na defnyddio a throsglwyddo gwybodaeth yn unig. Mae Stenhouse (1975: 143) yn galw ar yr athro i gyfranogi mewn 'rhaglen ymchwil a datblygiad

personol ble mae'n datblygu ei ddealltwriaeth o'i waith ei hun yn gynyddol ac o ganlyniad yn gwella ei addysgu.' Mae Dimmock (2016: 45) yn awgrymu 'y bydd angen i ysgolion ddod yn safleoedd ar gyfer cynllunio ymchwil, methodoleg a chymhwysedd', gyda Hargreaves (1999: 132) yn dadlau y gellid cymhwyso diwylliant creu gwybodaeth busnesau technolegol cychwynol ar gyfer ysgolion, gan gynhyrchu 'ysgolion sy'n creu gwybodaeth' wedi'u lleoli ar ganol continwwm McIntyre.

Newidiadau mewn hunaniaeth a rôl

Mae delio gyda'r 'bwlch' gwybodaeth yn dynodi newid yn y berthynas rhwng 'crewyr' a 'defnyddwyr' ymchwil academaidd mewn addysg (Hargreaves, 1999; Gore a Gitlin, 2004; Vanderlinde a van Braak, 2010; Cain, 2015). Yn y cyd-destun hwn, mae newid hunaniaeth ymhlyg i ysgolion ddod yn safleoedd creu gwybodaeth, yn ogystal â'i defnyddio. (Hargreaves, 1999: 136). Mae'r newid arfaethedig mewn hunaniaeth ysgol yn cyd-fynd â'r alwad groch am gydnabod bod Sefydliadau Addysg Uwch ac ysgolion yn cyfrannu at, ac yn poblogi, yr un bydysawd wrth wneud eu priod gyfraniadau i'r sylfaen wybodaeth ehangach. (BERA-RSA, 2014). O safbwynt model ymarfer clinigol AGA sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon, mae Menter (2014: 58) hefyd yn nodi'r angen i'r newid mewn gwahaniaethau rôl a pherthnasoedd arwain at integreiddio ehangach a mwy cyson o theori ac ymarfer mewn lleoliadau prifysgol ac ysgol fel ei gilydd yn ystod AGA. Mae'n pwysu ar sawl astudiaeth arall i fanylu ymhellach am sail resymegol ac ymarferoldeb y newidiadau rôl/perthynas hyn ac yn nodi bod:

These changes are intended to result in a professional community with an inquiring stance (Kriewald a Turnage, 2013) in which teaching, learning, researching and mentoring are shared roles and in which individual participants might change roles at different times (Grossman, 2010; NCATE, 2010; Zeichner, 2010; Kriewald a Turnage, 2013; McLean Davies *et al.*, 2013, dyfynnir yn Menter, 2014: 58).

Mae'r safbwynt ymholiadol sy'n nodweddu'r gymuned ymarfer clinigol broffesiynol yn ymwneud â model o wneud penderfyniadau a amlinellir gan Burn a Mutton (2013), sy'n pwysu ar ysbrydoliaeth modelau sy'n hanu o'r proffesiwn meddygol. Yma, mae 'gweithwyr proffesiynol yn gwneud penderfyniadau trwy bwysu ar dystiolaeth o ystod o ffynonellau, gan gysylltu'r dystiolaeth honno â chanfyddiadau corff ymchwil cyfoes, gan integreiddio eu gwybodaeth o'r sefyllfa bresennol yn hyn o beth, ceisio

tystiolaeth bellach os oes angen, a phenderfynu ar gamau gweithredu.’ (McLean Davies *et al.*, 2019: 2).

Nodwn y rhyngweithio rhwng theori ac ymarfer sydd ymhlyg yn y disgrifiad hwn, wedi’i wreiddio mewn proses iterus sydd yn ei hanfod yn sefydlu’r athro fel ymchwilydd ac ymarferydd ystafell ddosbarth. Gellid dweud bod hyrwyddo dull gwyddonol, wedi’i seilio ar dystiolaeth a’i lywio gan ymchwil, i broses gwneud penderfyniadau’r athro yn nodi (ac yn gofyn am) newid yn hunaniaeth athro dan hyfforddiant. Mae synergedd corff a meddwl ymhlyg ym mherchnogaeth Burn a Mutton (2013: 3) o ‘ymarfer clinigol’ ble mae “barn ar waith” yn galw nid yn unig am gyfleoedd i ymarfer a diffinio’r fath sgiliau [ymarferol], ond hefyd am y cyfle i gymryd rhan ym mhrosesau creadigol dehongli, ymyrryd a gwerthuso, gan bwysu ar ffynonellau gwybodaeth amrywiol ...’.

Mae’r awydd am athro gyda’r sgiliau, cymwyseddau a phriodoleddau i barhau – ac o ganlyniad, i ddatblygu – gyda’r broses o ‘resymu clinigol’ yn un sydd efallai’n arwydd o ‘athro clinigol sy’n mabwysiadu safbwynt o fod yn agored i dystiolaeth ymchwil newydd am addysgu o safon a dysgu disgyblion, ac ymrwymiad i gynnal ac adnewyddu eu gwybodaeth ynghlwm wrth hyn’ (Cochran-Smith *et al.*, 2009, dyfynnir yn McLean Davies *et al.*, 2019). Gellid dweud bod y persbectif hwn yn tynnu sylw at ddeilliannau cadarnhaol o wella galluedd ac effeithiolrwydd athrawon, a’r hyder i sbar-duno newid yn eu cyd-destunau eu hunain. Mae Pesti, Gordon Györi a Kopp (2018: 54) yn adleisio’r teimladau hyn yn eu sylwadau terfynol wrth nodi y bydd athrawon dan hyfforddiant, drwy ‘... gael eu sensiteiddio ynghylch ymchwil addysgol sy’n canolbwyntio ar ymarfer ... yn mynd i fyd gwaith gyda’r gallu i drawsnewid eu harferion ystafell ddosbarth dyddiol mewn cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol sy’n newid yn barhaus gyda’r nod o gydnabod ac ymateb i’r heriau a’r anghenion sy’n dod i’r amlwg o’r newydd.’

Gan bwysu ar waith blaenorol (Brouwer a Korthagen, 2005; Darling-Hammond a Bransford, 2005, dyfynnir yn Munthe a Rogne, 2015: 17) diffinnir blwyddyn/blynyddoedd ffurfiannol addysg athrawon fel proses o ‘ddatblygu’ ble mae athrawon dan hyfforddiant ‘yn datblygu’n arloeswyr ac ymchwilwyr mewn addysg, gan osod sylfaen ar gyfer dysgu parhaus a newid yn y gweithle’. Fodd bynnag, mae Menter (2014: 63) yn rhybuddio am yr heriau cysyniadol sy’n rhan annatod o’r model ymarfer clinigol, sydd wedi’u gwreiddio yn y ‘... problemau gyda syniadaeth syml ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth’ ble gall athrawon dan hyfforddiant dyfu’n anfodlon gyda’r ‘... addewid (ffug) o sicrwydd a chynnydd mewn proffesiwn sydd wedi’i ddiffrio am ddiffyg cynnydd ymddangosiadol ...’.

Mae Menter (2014: 60) yn awgrymu bod yn rhaid i rôl a hunaniaeth tiwtoriaid SAU addasu wrth ymateb i'r model ymarfer clinigol. Fel mae Furlong *et al.* (2006, dyfynnir yn Tanner a Davies, 2009: 374) yn ei ddatgan, 'Mae gallu ymchwil oddi mewn i sefydliadau addysg athrawon yn darparu sylfaen gadarn i ddiwylliant ymchwil ar gyfer y sector'. Mae ymchwil Tanner a Davies (2009: 376) yn datgelu arwyddocâd ymchwil i hunaniaeth tiwtoriaid AGA a'r goblygiadau posibl i'w hathrawon dan hyfforddiant fod 'datblygu'n feirniadol' yn herio'r athro-addysgwr i ailasesu rhagdybiaethau, cwestiynu uniongrededd a dderbynnir, ail-werthuso damcaniaethau sy'n bodoli a datblygu a phrofi damcaniaethau newydd. Mae integreiddio'r safbwyntiau hyn i ymarfer proffesiynol yn darparu model i ddysgwyr a fydd yn annog y dysgwyr yn eu tro i ddod yn 'ymarferwyr adfyfyriol.'

Fodd bynnag, mae Menter (2014: 60) yn taflu goleuni ar heriau ymarferol a allai llesteirio rôl y tiwtor SAU mewn model ymarfer clinigol, sef y tensiwn rhwng gyrwyr/blaenoriaethau SAU (er enghraifft, cynhyrchu deilliannau academiaidd rheolaidd) a gofynion y model ei hun (sy'n galw am dreulio mwy o amser yn yr ysgolion). Mae hefyd yn rhybuddio am y bygythiad mae'r tensiynau hyn yn eu peri i'r 'darnio a'r hierarchaeth statws rhwng ymchwilwyr, damcaniaethwyr ac ymarferwyr' (Menter, 2014: 60).

Mae rôl y cyfryngwr a grybwyllwyd eisoes o bwysigrwydd arbennig i'r astudiaeth hon, ac mae wedi ei diffinio mewn gwahanol ffyrdd yn y corff o lenyddiaeth yr ymgynghorwyd ag ef ar ei chyfer (Hargreaves, 2009; Gore a Gitlin, 2004; Vanderlinde a van Braak, 2010; Dimmock, 2016). Mae agweddau allweddol ar rôl y cyfryngwr yn cael eu nodi trwy'r astudiaethau, gan gyfeirio at y potensial maen nhw'n ei gynrychioli ar gyfer hwyluso trosglwyddo ac integreiddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau, proses sydd, yn ôl Menter (2014: 33) yn 'rhan bwysig, a rhan a ddiystyrir, o ddysgu proffesiynol'. Mae llenyddiaeth yn awgrymu'r canlynol am rôl y cyfryngwr:

- dylai gael ei ffurfioli a derbyn awdurdod yn yr ysgol (Dimmock, 2016: 46);
- gall gefnogi defnyddio a chynhyrchu ymchwil (Hargreaves, 1999; Vanderlinde a Van Braak, 2010; Cain, 2015);
- dylai dderbyn adnoddau a chael cyfleoedd dysgu proffesiynol (Vanderlinde a Van Braak, 2010: 309); a
- mae'n cynnig ymchwil addysgol (a thrwy hynny'n hyrwyddo canfyddiadau ac yn galw eraill 'i'r gad') (Gore a Gitlin, 2004).

Gellir nodweddu rolau newidiol rhanddeiliaid, a thwf y rolau hynny, yng nghyd-destun AGA trwy symudiad tuag at fwy o integreiddio a chydweithio. Mae hyn yn adleisio canfyddiadau allweddol Flores (2018: 633) sy'n tanlinellu '... ailddiffinio rolau prifysgolion ac ysgolion gyda phwyslais cynyddol ar bartneriaethau cadarn, cydlynol a chefnogol ... trwy'r cyfuniad o addysgu ac ymchwil, ymchwilio i addysgu ac addysgu ymchwil.'

Dulliau

Gan fod yr astudiaeth hon yn archwilio profiadau personol yr Hyrwyddwyr Ymchwil newydd a staff y brifysgol, mabwysiadwyd dull ansoddol, gan adlewyrchu ei werth fel patrwm ymholi. (Nowell *et al.*, 2017).

Defnyddiodd yr astudiaeth sampl cyfleustra bwriadol (n=10) o athrawon cynradd ac uwchradd a nodwyd gan ysgolion fel Hyrwyddwyr Ymchwil, yn ogystal â staff Addysg Uwch, cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg fel y dangosir yn Nhabl 1.

Roedd gan bawb a gyfwelwyd mewn ysgol berthynas sefydledig â staff prifysgol, a helpodd i sicrhau ymddiriedaeth, sy'n hanfodol ar gyfer cyfweiliadau llwyddiannus (Potter, 2018). Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau gan staff academiaidd, yn seiliedig ar gwestiynau cyffredin a ddatblygwyd ar y cyd gan y tîm ymchwil. Sicrhawyd caniatâd moesegol gwybodus trwy weithdrefnau prifysgol sefydledig.

Lluniwyd y cwestiynau gan y tîm o gwmpas tair thema ganolog a oedd yn adlewyrchu amcan yr astudiaeth a llenyddiaeth gyfredol. I ddechrau, rôl yr Hyrwyddwr Ymchwil. Roedd yr ymatebion yma'n nodi argraffiadau'r rôl ddamcaniaethol, priodoleddau model rôl, y gefnogaeth a ragwelwyd ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, ynghyd â phrofiad ymatebwyr, gweithgaredd ymchwil gyfredol ac ymgysylltiad â rhwydweithiau ymchwil. Yn ail, rôl yr ymchwil oddi mewn i'r proffesiwn addysgu ac i

Tabl 1: Grŵp sampl o gyfweleion

Sector	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfanswm
Cynradd	3	1	4
Uwchradd	2	1	3
SAU	2	1	3
			10

athrawon dan hyfforddiant yn benodol. Roedd archwilio pellach yn cwm-pasu effaith yr ymchwil ar ysgolion unigol ac ar yr Hynwyddwyr Ymchwil eu hunain. Yn drydydd, holwyd cwestiynau'n ymwneud ag ystyriaethau ymarferol ar gyfer gweithredu rôl Hynwyddwr Ymchwil oddi mewn i gyrsiau AGA achrededig newydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yn cynnwys anghenion o ran adnoddau, heriau posibl ac argymhellion ar gyfer y dyfodol. Cafodd yr holl gyfweiliadau eu recordio a'u trawsgrifio.

Dadansodwyd trawsgrifiadau'r cyfweiliadau gan ddefnyddio proses anwythol, ailadroddol o ddadansoddiad thematig (Braun a Clarke 2006; Russell a Vallade 2010). Dechreuodd y dadansoddi heb unrhyw godau rhagdybiedig (Morse *et al.*, 2009), ond gan gydnabod, fodd bynnag, ein 'gwybodaeth fewnol' o'r system a oedd yn destun i'r ymchwil (Clegg a Stevenson, 2013). I liniaru effaith y wybodaeth, defnyddiwyd 'y data penodol ei hun i ddeillio strwythur y dadansoddiad' (Burnard *et al.*, 2008: 429). Nododd y dadansoddiad hwn 'themâu, patrymau neu gysyniadau cylchol gan yna ddisgrifio a dehongli'r categorïau hynny' (Nassaji, 2015: 130).

Yn ystod archwiliad cychwynnol o'r holl ymatebion, daeth tair thema bendant i'r amlwg i'w harchwilio ymhellach:

1. Pontio'r bwch rhwng ymchwil addysgol ac ymarferwyr ystafell ddosbarth;
2. Y mathau o wybodaeth y mae athrawon yn pwysu arnynt;
3. Newidiadau mewn rôl a hunaniaeth.

Wedi ail archwiliad o'r ymatebion, nodwyd is-themâu a oedd yn tynnu sylw at anghenion sy'n effeithio ar y tair prif thema. Nododd dadansoddiad terfynol o'r data gamau arfaethedig i sicrhau llwyddiant y rôl a'r peryglon i'w hosgoi.

Canlyniadau

Cwestiynau'n ymwneud â rôl yr Hynwyddwr Ymchwil

Roedd ymatebwyr yn gweld rôl Hynwyddwr Ymchwil fel un a oedd yn seiliedig ar ddau faes eang. Roeddent yn amlwg yn gweld bwch rhwng ymchwil addysgol gyfredol ac ymarfer ystafell ddosbarth ac yn ystyried yr Hynwyddwr Ymchwil fel ymateb i'r angen i gysylltu'r ddwy agwedd. Yr

Ceri Pugh et al. 195

arwydd cryfaf o'r llwybr y byddai'r bwlch yn cael ei fodloni oedd trwy i waith aseiniol yn y brifysgol gyd-fynd â blaenoriaethau'n codi o'r Cynllun Gwella Ysgolion. Ymhellach, cafodd y syniad o'r Hyrwyddwr Ymchwil yn gweithredu fel model rôl ei gynnwys yn y rhan fwyaf o ymatebion, gydag awgrymiadau y byddai hyn yn cynnwys cynnal y wybodaeth ddiweddaraf, trosglwyddo syniadau newydd a hwyluso cwblhau aseiniadau.

Wrth edrych ymhellach ar nodweddion model rôl gadarnhaol Hyrwyddwr Ymchwil, awgrymwyd nifer o briodoleddau, yn cynnwys bod yn frwd ynghylch ymchwil, bod yn bwyllog ac yn amyneddgar, yn ogystal â bod yn ddiuedd ac yn llais rhesymol. Nododd hanner yr ymatebwyr yr angen i fod yn gefnogol, gyda llawer yn cysylltu cefnogaeth gyda'r gallu i gyfeirio athrawon dan hyfforddiant at lenyddiaeth berthnasol. Roedd y rhan fwyaf yn datgan y dylai Hyrwyddwyr Ymchwil fod yn weithgar ym maes ymchwil; o'r ymatebion hyn, roedd lleiafrif yn cynnwys y syniad na ddylid cuddio methiant ond yn hytrach edrych arno fel rhan annatod o barodrwydd i arloesi. Nododd tua hanner y cydweithwyr mewn ysgolion awydd i'r Hyrwyddwr Ymchwil ddysgu oddi wrth athrawon dan hyfforddiant a chyflwyno canfyddiadau ymchwil i'r proffesiwn addysgu ehangach. Roedd cydweithwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn ategu'r farn hon, ond aeth mwyafrif ymhellach, gan ddatgan yr angen i Hyrwyddwr Ymchwil *bersuadio* cydweithwyr mwy profiadol o werth ymchwil.

O droi at gwestiynu mwy personol, gofynnwyd i Hyrwyddwyr Ymchwil sut gwnaethon nhw ymgymryd â'r rôl. Heb fawr o syndod, nododd pob un eu bod yn ymwneud ag ymchwil; fodd bynnag, roedd gwahaniaethau sylweddol yn lefelau profiad a'r math o ymchwil dan sylw. Wrth fanlyu am ddi-ddordebau ymchwil cyfredol, nododd y rhan fwyaf weithgaredd wedi'i leoli mewn ysgol, gyda rhai'n cyfranogi mewn ymchwil a ariannwyd yn allanol. Roedd pob un o'r Hyrwyddwyr Ymchwil yn ymwneud â rhwydweithiau ymchwil, yn gysylltiedig naill ai â'r ymchwil mewn ysgol neu'r ymchwil allanol. Ar ben hynny, roedd un unigolyn yn astudio ar gyfer gradd Meistr. Roedd llawer yn meddu ar brofiad parhaus ym maes AGA, naill ai fel mentoriaid neu uwch fentoriaid, ac roedd profiad gan rai o arweinyddiaeth mewn meysydd eraill. Roedd lleiafrif wedi ymgymryd â rôl Hyrwyddwr Ymchwil ar ôl derbyn cais i ddiwallu angen proffesiynol, yn seiliedig ar eu sgiliau a'u profiad. Roedd un unigolyn llai profiadol, ond gyda diddordeb yn datblygu ym maes ymchwil, wedi holi am y rôl er mwyn cynyddu ymgysylltiad. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn rhagweld rôl fwy datblygedig a gweithgaredd cynyddol mewn rhwydweithiau ymchwil yn y dyfodol.

Gan barhau i ganolbwyntio ar ymgysylltiad personol, gofynnwyd i Hyrwyddwyr Ymchwil sut roedden nhw'n gweld eu hunain yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant gydag ymchwil yn yr ysgol. Roedd tua hanner yr ymatebion yn cwmpasu'r priodoleddau a ddisgrifiwyd ar gyfer model rôl gadarnhaol; er enghraifft, bod yn gefnogol, yn frwdfrydig a chyfeirio'r athro dan hyfforddiant at lenyddiaeth berthnasol. Roedd ymatebion eraill, fodd bynnag, yn fwy amrywiol, ond gellid eu dosrannu i dri maes eang. Yn gyntaf, y syniad o fod yn allweddol wrth hwyluso ymchwil athrawon dan hyfforddiant trwy ddatblygu cysylltiadau â staff prifysgol hyd at staff eraill yn yr ysgol a fyddai'n gallu cefnogi'r broses ymchwil. Yn ail, gwybod yr union beth yw'r disgwyliadau i allu cyflawni'r rôl yn gymwys. Yn drydydd, sicrhau bod agweddau ymarferol yn cael eu bodloni er mwyn medru cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr holl bartïon a bod athrawon dan hyfforddiant yn gallu bod yn sicr y bydd yr Hyrwyddwr Ymchwil ar gael.

Gofynnwyd i gydweithwyr SAU sut roeddent yn gweld Hyrwyddwyr Ymchwil yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant ac roedd yr ymatebion yn cyd-fynd yn agos â'r ymatebion a gafwyd gan yr Hyrwyddwyr Ymchwil eu hunain; er enghraifft, cysylltu gyda'r brifysgol a chorpws ehangach o staff ysgol a sicrhau bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd syniadau eraill a ddisgrifiwyd yn ymwneud ag ymatebion gan Hyrwyddwyr Ymchwil ond yn ymwneud mwy â chefnogaeth i aseiniadau penodol; er enghraifft, cysylltu gyda'r brifysgol i drafod y dewis o bwnc aseiniad, trafod y Cynllun Gwella Ysgolion a rhannu data ysgol gydag athrawon dan hyfforddiant.

Cwestiynau'n ymwneud â rôl yr ymchwil

Gofynnwyd am farn y cyfranogwyr ar y rôl y mae ymchwil yn ei chwarae yn y proffesiwn addysgu. Ymatebodd yr holl gydweithwyr mewn ysgol fod ymchwil yn hanfodol er mwyn sicrhau gwelliant. Roedd y drafodaeth ehangach yn cynnwys cyfleoedd i dreialu syniadau newydd, cael gwybod am y wybodaeth ddiweddaraf a chyflwyno dealltwriaeth ddyfnach i ymarfer. Soniwyd hefyd am werth ymchwil wrth hwyluso newid cenedlaethol, ei le o fewn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac ymgysylltiad gydol-gyrfa gydag athrawon mwy profiadol yn dysgu gan weithwyr proffesiynol iau.

Mynegwyd barn debyg gan gydweithwyr mewn prifysgol, er bod rôl y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu yn fwy amlwg fel prif ymateb.

Wrth droi'r sylw at rôl ymchwil i athrawon dan hyfforddiant yn benodol, roedd y rhan fwyaf o gydweithwyr mewn ysgol o'r farn bod cysylltu theori ag ymarfer yn briodoledd hanfodol. Roedd llawer o'r farn bod ymchwil yn hanfodol i wella ymarfer, gyda lleiafrif yn tynnu sylw ymhellach at yr angen i bwysleisio cynnydd a dysgu disgyblion. Ystyriai tua hanner ymgysylltiad myfyrwyr dan hyfforddiant mewn ymchwil fel rhan o ymdrech tîm ehangach, a nodwyd bod y gweithgaredd hwn hefyd yn bwysig wrth normaleiddio ymchwil yn y proffesiwn. Roedd y farn hon yn fwy amlwg mewn ymatebion gan staff prifysgol, gyda phawb yn gweld ymchwil fel rhan annatod o yrfa addysgu. Ymhellach, roedd yr ymdeimlad o newid yn gweithio ei ffordd trwy'r proffesiwn yn glir a gweithwyr proffesiynol hŷn yn dysgu gan newydd-ddyfodiaid yn glir.

Wrth edrych ar yr effaith y gallai ymchwil ei chael ar ysgolion unigol, nododd yr holl gydweithwyr mewn ysgol y cysylltiad rhwng ymchwil berthnasol a gwella ysgolion, gyda'r mwyafrif yn cwmpasu'r perthnasedd o safbwynt y Cynllun Gwella Ysgolion. Roedd cyfraniadau eraill yn cynnwys gwella cynnydd disgyblion, addysgeg a llesiant. Cyfeiriodd llawer o ymatebion at ymdeimlad cynyddol o gymuned yn datblygu allan o'r ymchwil, gyda mwy o hunaniaeth gan athrawon dan hyfforddiant yn yr ysgol a'u cyfraniadau o fudd i'r holl staff. Gwnaeth bob un o'r staff prifysgol sylwadau ar broffil uwch ymchwil mewn ysgolion ac roedd mwyafrif yn rhagweld mynegiant cymunedol cynyddol o ran ffocysau ymchwil.

Cafodd y syniad o gymuned ymchwil yn cynnwys athrawon dan hyfforddiant, staff addysgu, Sefydliadau Addysg Uwch a grwpiau ymchwil ehangach gefnogaeth bellach mewn ymatebion i ddatblygiad sgiliau ymchwil personol gan Hyrwyddwyr Ymchwil. Yn yr achos hwn, roedd y rhan fwyaf yn gweld budd ymgysylltiad cymunedol, gyda manylion pendant ynghylch datblygu gwybodaeth, ymgysylltiad â llenyddiaeth, ffyrdd newydd o feddwl, dileu rhagfarn ac aelodaeth o rwydweithiau.

Adnoddau, Heriau ac Argymhellion

Gofynnwyd i gyfweleion pa fentora a/neu adnoddau a oedd yn angenrheidiol i gefnogi rôl Hyrwyddwr Ymchwil, ynghyd â heriau posibl ac argymhellion ar gyfer llwyddiant. Roedd cryn orgyffwrdd yn yr ymatebion o amgylch y tri maes, gyda syniadau clir ar y ffordd orau i gefnogi Hyrwyddwyr Ymchwil. Roedd yr holl Hyrwyddwyr Ymchwil yn gweld yr angen am gyswllt, arweiniad a hyfforddiant parhaus er mwyn hwyluso'r rôl. Nododd llawer y dylai cefnogaeth bwrsadol fod ar gael i ymateb i

anghenion unigol, a bod ymdeimlad o gymuned yn hanfodol, gan ofyn am gyfarfodydd rheolaidd gydag eraill ac elfen o gydlynu ar ran y Sefydliad Addysg Uwch. Nododd lleiafrif diwtoriaid prifysgol fel wynebau disgwylidig unrhyw gyswllt un-i-un, gyda nifer tebyg yn llai penodol ynghylch ble a sut dylid cyflenwi unrhyw gefnogaeth. Roedd staff prifysgol yr un mor gadarn eu cefnogaeth i'r angen i ddatblygu cymuned ymchwil; ystyriwyd bod hyfforddiant pwrpasol i ymateb i anghenion lleol ac eglurder yn y rôl hefyd yn hanfodol er mwyn llwyddiant. Roedd y rhan fwyaf o Hyrwyddwyr Ymchwil yn nodi amser a baich gwaith fel yr her fwyaf i gyflawni'r rôl. Ystyriodd tua'u hanner y byddai rhestrau ffurfiol yn cynnwys cyfrifoldebau ac awgrymiadau darllen, er enghraifft, yn ddefnyddiol. Nodwyd rhwystr posibl i'r rôl gan rai, ar sail statws yr Hyrwyddwr Ymchwil o fewn ysgol; byddai angen i Hyrwyddwyr Ymchwil gyda statws is gael cefnogaeth i sicrhau y gellid codi statws ymchwil mewn ysgol yn effeithiol. Roedd perswâd yn hanfodol er mwyn llwyddiant i un tiwtor prifysgol, fel rhan o gymuned ymchwil sy'n datblygu.

Roedd argymhellion nas crybwyllwyd uchod eisoes yn cynnwys yr angen am adnoddau sylfaenol mewn ychydig o ysgolion, er enghraifft, gofod gweithio, argaeledd rhynggrwyd a chyfrifiaduron. Awgrymwyd tryloywder a dysgu o gamgymeriadau hefyd, ynghyd â modelau o arfer da a deunydd enghreifftiol pan fyddant ar gael. Yn ddiddorol, mynegodd lleiafrif sylweddol awydd i gyflogi cydlynedd ymroddedig i oruchwylio meddwl strategol ynghylch rôl yr Hyrwyddwr Ymchwil ac er mwyn osgoi myleiddio'r rôl yn wyneb pwysau cystadleuol oddi mewn i ddarpariaeth AGA.

Trafodaeth

Fel y nodwyd uchod, arweiniodd codio'r ymatebion i'r cyfweiliadau at gynhyrchu tair thema'n ymwneud â phontio'r bwlch rhwng ymchwil addysgol ac ymarferwyr ystafell ddosbarth, y mathau o wybodaeth y mae athrawon yn pwysu arnynt, a newidiadau mewn rôl a delwedd oddi mewn i AGA. Trafodir y tair thema isod, ynghyd â'r is-themâu yn deillio o'r dadansoddiad ac argymhellion ar gyfer datblygu rôl yr Hyrwyddwr Ymchwil.

Pontio'r Bwlch

Nodwyd bwlch rhwng allbwn ymchwil lefel uwch a natur ymchwil gweithredol mewn ysgolion, bwlch y gallai Hyrwyddwr Ymchwil weithio i geisio'i gau. Er enghraifft,

I understand the role to be basically a bridge between teaching and school and pedagogy with the wider research community, because I think sometimes they can be quite separate, so as a teacher, obviously research has a massive impact on your pedagogy, but I think sometimes there's this big gap between researchers and what they're researching in education and then actually teachers in the classroom level. (Secondary, 1)

Mae'r syniad o Hyrwyddwr Ymchwil yn bod yn 'gwndid ... ar gyfer sefydlu'r broses a thestunau neu bynciau'r ymchwil' yn cefnogi'r syniad o fwch sydd angen ei lenwi (Cynradd, 2), tra bod cyfrannwr arall wedi mynegi barn debyg, ond wedi manylu ar y buddion i athrawon dan hyfforddiant:

I think the role of research for the RC is bridging that gap between school-led practice and then university using the research within an enquiry based approach looking at what's being used currently within the school and how the students can manipulate that for their own gains, taking it back to university, trying something out and then bringing it back into school so refining everything that they're doing, taking it from university, trying it out here and then refining that process. (Primary, 1)

Mae barn tiwtor prifysgol yn cefnogi bodolaeth bwlch rhwng ymchwil lefel uwch ac ymarfer ysgol, ond yn awgrymu bod rhywfaint o ymchwil perthnasol yn cael ei gollu gan ysgolion ar hyn o bryd:

I think at the moment there probably is still a disconnect there where a lot of educational research is sort of going over their heads I suppose or just sort of passing people by in schools for very valid reasons, you know, because people are busy or they're not sure how relevant it's going to be to what they're doing and I think a lot of teachers may well feel that they don't have the time or the resources or the skills to actually do it. (HEI, 1).

Mae'r sylwadau hyn yn cefnogi canfyddiadau Ellis *et al.* (2014) ynglŷn â'r bwlch rhwng ymchwilwyr ac ymarferwyr, ac adnabod anawsterau posibl mewn perthnasoedd oddi mewn i AGA (Elton-Chalcraft *et al.*, 2018). Ar ben hynny, maent yn rhoi cyfiawndad cadarn i ddatblygiad rôl yr Hyrwyddwr Ymchwil gan Bartneriaeth Caerdydd fel offeryn cymodi ble gall gwahaniad fod yn anochel fel arall (Tanner a Davies, 2009).

Nodwyd is-thema glir o'r angen am ddeialog, ar sail pob cyfranogwr yn cydnabod yr angen am drafodaeth rhwng Sefydliadau Addysg Uwch ac ysgolion. Yn amlwg, roedd lefel (a ffocws) y ddeialog a ragwelwyd yn dibynnu ar lefel profiad ysgol o ymchwil. Yn achos y rhai llai profiadol a galluog o ran ymchwil, datgelodd eu hymatebion awydd i Sefydliadau Addysg Uwch ddeall eu hanghenion sylfaenol wrth gyflawni rôl yr Hynwyddwyr Ymchwil, gan ofyn o ganlyniad am *ragor* o ddeialog, a deialog o natur bragmataidd. Roedd enghreifftiau o anghenion yn cynnwys 'y brifysgol yn dod allan i ymweld', 'rhywun i droi tuag atynt', 'gwybod at bwy i droi', 'rhestr wirio', 'darllen pellach', 'rhywun yn cysgodi eich dosbarth', 'canolfan' ble gallai athrawon dan hyfforddiant weithio, 'gofod digonol, 'defnyddio'u cyfrifiaduron eu hunain' a 'chysylltiad â'r rhyngwrwyd'.

Mewn cyferbyniad, roedd athrawon mwy profiadol a enwebwyd i fod yn Hynwyddwyr Ymchwil (mewn ysgolion gyda diwylliant ymchwil sefydlog) a thiwtoriaid SAU (gyda sgiliau academaidd cadarnach) a gafodd eu cyfweld, yn datgelu'r angen am lai o ddeialog i bontio'r bwlch, ond un sy'n canolbwyntio i raddau mwy ar botensial ymchwil uchelgeisiol mewn addysg. Er enghraifft:

First of all [student teachers] are going to be assessed against the new professional standards for teaching and leadership so within professional learning and innovation there has to be evidence, if you like, that they are engaging with wider reading of research as well as taking part in research and innovation. I think more than that though, rather than just ticking a box, it's about the student teachers developing habits of lifelong learning, of continuing to question practice, to improve their own pedagogy and to share that across classes and teachers in their schools and across schools. Yeah, it's about being what a professional teacher means really in 2019. (HEI, 2).

Roedd deialog rhwng Hynwyddwyr Ymchwil ac athrawon dan hyfforddiant hefyd yn cael ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn codi statws allbynnau ymchwil (e.e. aseiniadau a gwerthusiadau) y tu hwnt i ymarferiad 'ticio blwch' i fod yn rhywbeth sy'n meddu ar y potensial i gael effaith yn yr ystafell ddosbarth (a thu hwnt):

I think the role of the mentor in a school is so important and I think they need to give themselves more credit. Because I think they're experts and I think sometimes, I know that for myself, I haven't realised that actually, I'm an expert in this classroom and this context. And so, the role [of student teachers writing lesson evaluations] might still fall as a tick-box task. (Secondary, 1).

Er ei fod yn canolbwyntio ar allbwn gwerthusiadau gwersi, yr hyn y mae'r cyfranogwr hwn yn ei awgrymu yn ei ymateb yw y gall mentor/Hyrwyddwr Ymchwil medrus helpu i hogi sgiliau meddwl beirniadol ac ymchwil yr athro dan hyfforddiant trwy ymgysylltu â'r allbynnau trwy ddeialog reolaidd. Mae gan hyn y potensial i godi statws aseiniadau ysgrifenedig, o fod yn fesurau o lwyddiant academaidd i fod yn weithgareddau dysgu proffesiynol hanfodol fel rhan o arfogaeth athro. Ymhellach, mae'r ymagwedd hon yn ymateb i'r angen am gymhwysedd wrth hyrwyddo manwl gywirdeb academaidd, sy'n aml yn absennol (Winch, Oancea ac Orchard, 2015) mewn cyd-destun ysgol.

Ynghlwm wrth yr angen am ddeialog, daeth rôl y tiwtor SAU i'r amlwg fel galluogwr cyfryngol i'r Hyrwyddwr Ymchwil. Yn yr enghraifft hon, mae'r angen am ffigwr cefnogol cyffredinol yn glir:

I think maybe the fact that we aren't going to have all the answers. They're going to turn to us (for answers) and maybe we'll need someone to turn to too, you know? We're not going to know everything and if everyone is going down completely different tracks, you have to maybe know a little bit more about all these different things in order to be able to help them and to lead them. (Primary, 3).

Fodd bynnag, mae'r tiwtor SAU hefyd yn cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn argyhoeddi Hyrwyddwyr Ymchwil am arwyddocâd ymchwil i addysgu a dysgu:

... there is a place for RCs to help to promote research within ... the school community, to be a role model and to lead perhaps on research projects and to discuss with other members of staff, specifically with mentors but ... they also need to be vocally in favour of research [and] being in close contact with the University from the perspective of research. (HEI, 3).

Fel y nodwyd eisoes, un o ddyletswyddau'r Hyrwyddwr Ymchwil yn ôl Vanderlinde a Van Braak (2010) fyddai trosglwyddo canlyniadau ymchwil i'w gydweithwyr. Er nad yw trosglwyddo'r damcaniaethol (gwybodaeth yn seiliedig ar ymchwil) i'r ymarferol yn absennol o'r astudiaeth hon, ychydig sydd ynddi i awgrymu bod ysgolion yn teimlo'n hyderus yn y maes hwn ar hyn o bryd. Yn fwy cadarnhaol, fod bynnag, mae athrawon dan hyfforddiant (ac ymchwil mewn AGA) yn cael eu cyflwyno fel sbardun posibl ar gyfer trawsnewid y diwylliant ymchwil mewn ysgolion:

[published research] can kind of sit in this ivory tower where it's quite difficult to understand. And so I think if student teachers do it, it just brings it down to an accessible level because every student teacher, it will just be natural to them and so it will bring through then this generation of teachers who it's just in them and it's

just natural and they think that ... that it's so important. Because otherwise it just becomes a monotonous job of, "Well, I've taught this scheme of work for 10 years, so I'll just carry on doing it because no-one's ever really complained." But I don't think that's good teaching. (Secondary, 1).

Mae'r teimlad hwn yn cael ei adlesio yn y sector cynradd ac ymhlith Sefydliadau Addysg Uwch:

There may be a lot of staff in the school who were trained years ago and perhaps need more information. So it's quite useful then that there are younger people who are coming into the profession and who can run the latest research and maybe offer new ideas, new ways of teaching. (Primary, 1);

I think it's definitely increasingly the case that schools and departments see having a student teacher in that light that they will expect them to come in and investigate, research and bring fresh things in. (HEI, 1).

Yn amlwg, nid yw symudiad creu gwybodaeth i ysgolion (Dimmock, 2016; Hargreaves, 1999) wedi ymddangos yn llawn yng Nghymru eto, ond mae arwyddion o newid yn dod yn amlycach.

Mathau o Wybodaeth Gyfredol

Yn deillio yn bennaf o'r syniad o'r angen i wybodaeth gael ei thrawsnewid, ond ar wahân i weithgaredd pontio, nodwyd thema yn ymwneud â'r mathau o wybodaeth y mae athrawon yn pwyso arnynt. Mae'r canlyniadau'n dangos bwlbch yn nealltwriaeth Hynwyddwyr Ymchwil o'r mathau o wybodaeth y bydd angen iddynt eu datblygu a phwyso arnynt i gyflawni eu rôl gyfryngol yn dda. Fel yr amlygwyd uchod, roedd llawer o Hynwyddwyr Ymchwil yn rhestru anghenion pragmataidd i'w helpu i gyflawni eu rolau, heb unrhyw ddirnadaeth ymddangosiadol o unrhyw ofynion pellach. Roedd Hynwyddwyr Ymchwil mwy profiadol, fodd bynnag, yn arddangos gwell dealltwriaeth o'u hanghenion eu hunain. Er enghraifft, yr angen i hogi sgiliau academaidd, a'r effaith ar ddatblygiad athro dan hyfforddiant: 'If data is going to play an essential role for their essays, [we would need] clear guidelines on how to support and analyse that data and what that means when coming to different interpretations and perceptions ... doing things such as inference tasks.' (Secondary, 3).

Yn aml, cysylltwyd profiad yr Hynwyddwr Ymchwil â'r diwylliant ymchwil yn ei ysgol. Os oedd ymchwil wedi effeithio a dylanwadu ar gynlluniau datblygu ysgol, er enghraifft, roedd yr Hynwyddwr Ymchwil yn gallu mynegi dylanwad uniongyrchol ar ei ymarfer ei hun:

Ceri Pugh et al. 203

I think that maybe it shows already how research has had an impact on our school already by changing the School Development Plan in accordance with what we've discovered through research. So, you know, being able to open a different door, or maybe we notice that the thing we're doing at the moment is the best thing or perhaps it will show up areas where we need to adjust here and there in order to improve our pedagogy. (Primary, 4).

Mae'n ymddangos bod cydberthyniad yma rhwng yr Hyrwyddwyr Ymchwil hynny sydd â phrofiad fel ymchwilwyr, neu sydd wedi'u trwytho yn niwylliant ymchwil eu hysgol, a'u gallu i nodi anghenion i'w helpu i gyflawni eu rôl. Mae'r arsylwad hwn yn tynnu sylw at angen posibl i Sefydliadau Addysg Uwch weithio'n agos gyda Hyrwyddwyr Ymchwil i sicrhau dealltwriaeth o'u rôl ac i allu cynnig hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol, fel sy'n briodol.

Roedd agwedd arall ar ddylanwad ymchwil a'r mathau o wybodaeth a bwyswyd arnynt yn cysylltu'n gryf ag anghenion penodol oddi mewn i gyfnod neilltuoel o yrfa addysgu neu â hyfforddiant cychwynnol: '[I] was trained most recently so because of that perhaps I can relate better to students at the moment. I've also recently conducted my own research as part of the course.' (Primary, WM 2).

Yn ddiddorol, fodd bynnag, nid oedd yr elfennau unigol hyn o ymchwil yn cael eu hystyried ar eu pennau eu hunain; yn hytrach, roeddent wedi'u cysylltu i ymdeimlad ehangach o gymuned:

There's a greater emphasis on research when you are training to become a teacher. I think you're left more to your own devices once you've qualified. But as a student teacher you are given topics to study and write papers on. But I think again it's important to deepen knowledge, to understand how to be the most effective practitioner and how to work as part of a professional team. (Secondary, 2).

Ar ben hynny ...

It's vital. I don't think it should be seen as isolation or something that you do on a one-off occasion. It's something that permeates throughout your teaching career and profession and as you go on into leadership I think it's vital that staff are given opportunities to see new research that's coming out, old research that's coming out, manipulated again and actually find what works for them using questions such as how can we make this work in our classroom, creating proxy indicators, and actually using it as a tool for improvement and if it doesn't work, why doesn't it work for us and what can we do to sort of improve it or actually find something else that might work for the classroom teacher. Not everything works for everyone. (Primary, 1).



Her bellach i'r Hynwyddwr Ymchwil, felly, yw ymateb i anghenion ymchwil yr athro dan hyfforddiant, ond hefyd i sicrhau integreiddio oddi mewn i'r gymuned ymchwil ehangach.

Newidiadau mewn rôl/hunaniaeth

Roedd y drydedd thema i ddeillio o'r astudiaeth yn ymwneud â newidiadau i rôl neu hunaniaeth y sawl sydd ynghlwm wrth AGA. Mynegodd rhai Hynwyddwyr Ymchwil ymatebion pragmataidd, yn canolbwyntio ar yr hyn y bydd angen iddynt ei wneud ar sail ddyddiol, fel:

providing opportunities for them to interview experienced members of staff or maybe recently qualified teachers and also to provide access to students so if they want to carry out any questionnaires or interviews with students based on their learning experience we can put groups of people together to help. (Secondary, 2).

Roedd ymatebion eraill yn fwy uchelgeisiol, gan fynd â'r rôl y tu hwnt i alluoedd swyddogaethol a gan arwain athrawon dan hyfforddiant i ddefnyddio a chynhyrchu ymchwil. Er enghraifft,

using the new publications whilst also considering their academic basis, the aim of promoting the research ... to implement new ideas, to give students and teachers in the profession [the ability] to question perceptions and challenge themselves and to practice the Standards, practice what they have learnt on the classroom floor, for the benefit of us, as a profession, but more importantly, to highlight the progress of the children. (Secondary, 3).

Adleisiwyd y farn hon yn agos gan un tiwtor SAU a ddywedodd:

I suppose the RC is potentially going to have two parts to their role. One is going to be to start to become knowledgeable about the research that's out there and then to try to sift that and translate that so that they're able to disseminate useful bits of research within the school that they work in. So, they'll be a sort of person bringing in research from the outside, but then I suppose the second half of their role is going to be to champion and to facilitate the doing of research within their school by student teachers and hopefully eventually by their colleagues, so that the school is producing its own research that it can find useful in order to improve. (HEI, 1).

Mae'r ddau ddarlun cyferbyniol hyn yn tynnu sylw at yr angen i Sefydliadau Addysg Uwch sicrhau bod pob Hynwyddwr Ymchwil yn mabwysiadu hunaniaeth ymchwilydd, yn hytrach nag ystyried eu hunain yn 'weision' i'r rhaglen AGA a'r tiwtoriaid AGA.

Mae dangosydd hynod galonogol o botensial Hynwyddwr Ymchwil i gysylltu ymgysylltiad effeithiol ag athrawon dan hyfforddiant gydag



ymarfer proffesiynol gwell gan athrawon, i'w weld yn yr iaith a ddefnyddir gan un ymatebydd:

I think that it ensures that we are on top of our game really, in terms of what we know about education. We'll have to do a lot of reading and a lot of research of our own in order to be able to support the students. I think it will be of benefit to us as teachers just in that we'll have to keep abreast of the latest news. (Primary, WM 2).

Argymhellion i Gloi

Ar sail yr astudiaeth hon, mae'r awduron o'r farn bod sawl argymhelliad yn briodol i sicrhau llwyddiant cychwynnol a pharhaus wrth weithredu rôl Hyrwyddwr Ymchwil, fel yr amlinellir isod:

- Yr angen am newid diwylliant yn y modd y mae ysgolion a Sefydliadau Addysg Uwch yn cydweithio i ddatblygu'r gallu ar gyfer integreiddio defnyddio a chynhyrchu ymchwil oddi mewn i ysgolion ac AGA;
- Yr angen i geisio safbwyntiau tiwtoriaid AGA SAU wrth hwyluso ymarfer clinigol yn seiliedig ar ymchwil oherwydd gall fod rhagdybiaeth reddfól y byddant yn gallu gwneud hyn; fodd bynnag, mae llawer yn dod o gefndir ysgol ac felly'n meddu ar ddiffygion sgiliau academiaidd eu hunain;
- Yr angen i gynllunio teclyn diagnostig i nodi anghenion Hyrwyddwyr Ymchwil, eu diffygion sgiliau/gwybodaeth a chynllun dilynol ar gyfer gweithredu cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol;
- Yr angen i arfer y cyfrifoldeb i hyrwyddo a defnyddio ysgolion sy'n gweithio ar lefel uwch o ymchwil fel enghraifft i eraill o ddyhead o fewn Partneriaeth Caerdydd;
- Yr angen i greu cymuned o Hyrwyddwyr Ymchwil, gyda mynediad at fewnbnw academiaidd ehangach oddi mewn i Bartneriaeth Caerdydd, fel bod mentora cymheiriaid yn bosibl i gynorthwyo â'r dasg o hwyluso cynnydd, yn ogystal â chefnogaeth gan diwtoriaid AGA;
- Yr angen i greu tacsonomeg o sgiliau/gwybodaeth i Hyrwyddwyr Ymchwil eu defnyddio i hunanasesu ac adfyfyrio ar eu cynnydd ar ôl blwyddyn un yn eu rôl.

Cyfeiriadau

- BERA–RSA. (2014). *Research and the Teaching Profession: Building the Capacity for a Self-Improving Education System*. Final report of the BERA–RSA inquiry into the role of research in teacher education, London: BERA.
- Braun, V. a Clarke, V. (2006). 'Using thematic analysis in psychology', *Qualitative Research in Psychology*, 3 (2), 77–101.
- Burn, K. a Mutton, T. (2013). 'A Review of 'Research-informed Clinical Practice' in Initial Teacher Education'. *Oxford Review of Education*, 41 (2), 217–233.
- Burnard, P., Gill, P., Stewart, K., Treasure, E. a Chadwick, B. (2006). 'Analysing and presenting qualitative data', *British Dental Journal*, 204 (8), 429–432.
- Cain, T. (2015). 'Teachers' engagement with published research: addressing the knowledge problem'. *The Curriculum Journal*, 26 (3), 488–509.
- Clegg, S. a Stevenson, J. (2013). 'The interview reconsidered: context, genre, reflexivity and interpretation in sociological approaches to interviews in higher education research', *Higher Education Research & Development*, 32, 1, 5–16.
- Dimmock, C. (2016). 'Conceptualising the research–practice–professional development nexus: mobilising schools as 'research-engaged' professional learning communities'. *Professional Development in Education*, 42 (1), 36–53.
- Ellis, V., McNicholl, J., Blake, A. a McNally, J. (2014). 'Academic work and proletarianisation: A study of higher education-based teacher educators.' *Teaching and Teacher Education*, 40, 33–43.
- Elton-Chalcraft, S., Copping, A., Mills, K. a Todd, I. (2018). 'Developing research-informed practice in initial teacher education through school-university partnering'. *Professional Development in Education*, 1–16.
- Flores, M. A. (2018). 'Linking teaching and research in initial teacher education: knowledge mobilisation and research-informed practice', *Journal of Education for Teaching*, 44 (5), 621–36.
- Gore, J.M. a Gitlin, A.D. (2004). '[Re]Visioning the academic–teacher divide: power and knowledge in the educational community'. *Teachers and Teaching*, 10 (1), 35–58.
- Hagger, H. a McIntyre, D. (2000). 'What can research tell us about teacher education?' *Oxford Review of Education*, 26 (3/4), 483–94.
- Hammersley, M. (2005). 'The Myth of Research-based Practice: The Critical Case of Educational Inquiry'. *International Journal of Social Research Methodology*, 8 (4): 317–30.
- Hargreaves, D.H. (1999). 'The Knowledge-Creating School'. *British Journal of Educational Studies*, 47 (2), 122–44.
- Llywodraeth Cymru (2018). 'Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru: Addysgu athrawon yfory', *Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif: 001/2018*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

- McIntyre, D. (2005). 'Bridging the gap between research and practice.' *Cambridge Journal of Education*, 35(3), 357–82.
- McLean Davies, L. et al. (2019). *Clinical Teaching in Education*. Ar gael yn: <http://www.meshguides.org/guides/node/1496> (adalwyd: 11 Awst 2019).
- Menter, I. (gol.) (2014). *Theories of Professional Learning*. Northwich: Critical Publishing Ltd.
- Morse, J. M., Stern, P. N., Corbin, J., Bowers, B., Charmaz, K., a Clarke, A. (2009). *Developing grounded theory: The second generation*. Walnut Creek, California: Left Coast Press Inc.
- Munthe, E. a Rogne, M. (2015). 'Research based teacher education', *Teaching and Teacher Education*, 46, 17–24.
- Nassaji, H. (2015). 'Qualitative and descriptive research: Data type versus data analysis', *Language Teaching Research*, 19 (2), 129–32.
- Nowell, L.S., Norris, J.M., White, D.E. a Moules, N.J. (2017). 'Thematic Analysis: Striving to Meet the Trustworthiness Criteria', *International Journal of Qualitative Methods*, 16, 1–13.
- Pesti, C., Gordon Györi, J. a Kopp, E. (2018). 'Student teachers as future researchers: how do Hungarian and Austrian initial teacher education systems address the issue of teachers as researchers?' *CEPS*, 8 (3), 35–57.
- Potter, A. (2018). 'Managing productive academia/industry relations: the interview as research method', *Media Practice & Education*, 19 (2), 159–72.
- Russell, M. a Vallade, L. (2010). 'Guided Reflective Journalling: assessing the international study and volunteering experience'. Yn E. Jones (gol.), *Internationalisation and the Student Voice. Higher Education Perspectives*, New York: Taylor a Francis, 98–109.
- Shimahara, N.K. (1998). 'The Japanese model of professional development'. *Teaching and Teacher Education*, 14 (5), 451–62.
- Stenhouse, L. (1975). *An introduction to curriculum research and development*. London: Heinemann Educational.
- Tanner, H. a Davies, S. M. B. (2009). 'How engagement with research changes the professional practice of teacher–educators: a case study from the Welsh Education Research Network'. *Journal of Education for Teaching*, 35 (4), 373–89.
- Vanderlinde, R. a van Braak, J. (2010). 'The gap between educational research and practice: views of teachers, school leaders, intermediaries and researchers'. *British Educational Research Journal*, 36 (2), 299–316.
- Winch, C., Oancea, A. ac Orchard, J. (2015). 'The contribution of educational research to teachers' professional learning: philosophical understandings'. *Oxford Review of Education*, 41 (2), 202–16.